**Sut y bydd cynigion yn cael eu hystyried?**

## Nodyn cyngor i sefydlu maes gwersylla 28 diwrnod

Ar 1 Ionawr 2026 cyflwynwyd Cyfarwyddyd Erthygl 4 bydd yn dod i rym er mwyn amddiffyn amgylchedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ei gymunedau a'i rinweddau arbennig trwy ofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer.

- **Pob safle gwersylla 28 diwrnod, safleoedd carafannau a chartrefi symudol**

Y rheswm am hyn yw'r nifer cynyddol o feysydd gwersylla 'dros dro' sydd wedi bod yn ymddangos yn y Parc Cenedlaethol, a bod llawer o safleoedd o'r fath yn gweithredu ymhell y tu hwnt i 28 diwrnod.

Mae'r nodyn cyngor hwn i'w ddefnyddio ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithredu safle gwersylla[1] am hyd at 28 diwrnod y flwyddyn yn unig. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol a Chanllawiau Cynllunio Atodol ar Wersylla, Carafanau a Chabanau Gwyliau.

Wrth ystyried cais cynllunio ar gyfer safle gwersylla 28 diwrnod, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn seilio ei benderfyniad ar y polisïau a nodir yn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru)[2] a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, y cynllun datblygu sy'n cynnwys Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a'r Cynllun Datblygu Lleol 2 ar gyfer y Parc Cenedlaethol [3] a'r Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig ar Wersylla, Carafanau a Chabanau Gwyliau.[4]

Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i wneud cais am ganiatâd cynllunio ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol [5] – gweler: Cyngor Cynllunio (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro).

## Rhan 1: Cyn i chi wneud cais

Cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio, bydd angen i chi gasglu'r wybodaeth ganlynol:

- Lleoliad eich safle arfaethedig. Bydd angen dangos hyn ar fap gyda llinell goch yn nodi hyd a lled y safle, gan gynnwys unrhyw draciau mynediad o'r briffordd gyhoeddus.
- Sut y bydd cerbydau/cerddwyr yn cael mynediad i'ch safle.
- Faint o leiniau rydych yn bwriadu eu darparu ar gyfer gwersyllwyr (nodwch mai dim ond hyd at 3 o garafanau teithiol NEU gartrefi modur NEU gerbydau

---

[1] Mae safleoedd 28 diwrnod yn safleoedd dros dro heb gyfleusterau na strwythurau parhaol, ac mae'n rhaid cael gwared ag unrhyw strwythurau dros dro pan nad yw'r safle'n weithredol.
[2] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)
[3] Cynllun Datblygu Lleol 2 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
[4] Canllawiau Cynllunio Atodol Carafanau a Gwersylla - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
[5] Cyngor Cynllunio - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

gwersylla a ganiateir ar y safleoedd hyn). Bydd nifer y pebyll a gynigir yn dibynnu ar ardal y safle, gan ganiatáu ar gyfer mynediad a chynllun lleiniau.

- Y cyfnod yr ydych yn bwriadu gweithredu eich gwersyll mewn un flwyddyn galendr. Nid oes rhaid i'r 28 diwrnod fod yn olynol. (Mae cyfleusterau dros dro[6] ar y tir fel toiledau/cawodydd yn cyfrif tuag at y cyfanswm – hyd yn oed os nad oes lleiniau wedi'u meddiannu.)
- Sut y byddwch yn delio â gwastraff a gynhyrchir gan y rheini sy'n ymweld â'ch safle.
- Sut y byddwch yn delio â dŵr llwyd/carthion a gynhyrchir gan y rheini sy'n ymweld â'ch safle.

**Rhan 2: Pethau i fod yn ymwybodol ohonynt**

Yn y lle cyntaf, oherwydd sensitifrwydd penodol neu ofynion polisi, mae yna leoliadau lle na fyddai cais cynllunio ar gyfer safle gwersylla yn cael ei gefnogi. Cyn gwneud eich cais, edrychwch ar y rhain gan ddefnyddio'r dolenni a ddarperir. Mae'r lleoliadau isod i'w hosgoi.

1. Tir a ddynodir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)[7].
2. Tir o fewn parthau 2 a 3 ar Fap Llifogydd Cymru[8];
3. Tir ar yr arfordir, neu ar y Preseli, neu mewn lleoliadau sy'n weladwy o'r arfordir neu'r Preseli [9]. (Gweler Polisi 41 Cynllun Datblygu Lleol 2).

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol [10] yn nodi pa ardaloedd sydd â chapasiti tirwedd i oddef rhagor o feysydd gwersylla. Mae Tabl 6 (tudalen 20) o'r canllawiau hyn yn rhoi arweiniad cyflym i ddangos lle mae capasiti ar gyfer mwy o safleoedd ar gael, a pha ardaloedd sydd eisoes wedi cyrraedd y capasiti o ran yr effaith ar y dirwedd. Ym mhob achos, fodd bynnag, byddai angen ystyried effeithiau safleoedd unigol ar wahân.

Yn ogystal, bydd angen i chi ystyried:

1. Mynediad a diogelwch priffyrdd (gweler Polisi 60 o CDLl2 – Effeithiau Traffig).
2. Maetholion ychwanegol (ffosfforws) o fewn dalgylchoedd Afon Cleddau ac Afon Teifi. (Am fwy o wybodaeth gweler yma: Niwtraliaeth o ran maethynnau ffosfforws ar draws Sir Benfro - Cyngor Sir Benfro (sir-benfro.gov.uk)).
3. Cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig (Gweler polisïau 10, 11 a 12 o CDLl2).
4. Parthau diogelu mwynau (Gweler polisïau 21 a 22 o CDLl2).

---

[6] Rhaid cyfyngu cyfleusterau dros dro i safbibell a thoiledau / cawodydd (os ydynt yn ofynnol dan drwydded) y gellir eu symud yn rhwydd o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

[7] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyfarwyddyd i berchnogion a deiliaid Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

[8] Cyfoeth Naturiol Cymru / Gweld eich risg llifogydd ar fap (Map Asesu Perygl Llifogydd Cymru)

[9] Cynllun Datblygu Lleol 2 - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

[10] Canllawiau Cynllunio Atodol Carafanau a Gwersylla - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Rhan 3: Arferion da**

Bydd maint y safle a nifer y lleiniau yn cael eu hystyried fel rhan o'ch cais cynllunio. Yn ogystal ag osgoi lleoliadau a restrir yn adran 2 uchod, mae'r pwyntiau canlynol yn darparu canllawiau ar gael ymateb cadarnhaol i'ch cynnig:

1. Osgoi lleoliadau amlwg a/neu sensitif.
2. Defnyddio ardal gaeedig sy'n helpu i leihau amlygrwydd gweledol.
3. Defnyddio nodweddion presennol a thirlunio i helpu i sgrinio'r safle.
4. Gwell osgoi lleoliadau ar y nenlinell (*skyline*).
5. Osgoi defnyddio sawl cae.
6. Cysylltu â chyfadeiladau fferm os yw'n bosibl.
7. Defnyddio tir âr, tir pori wedi'i wella neu dir llwyd [11].
8. Osgoi lleoliadau tawel ac anghysbell.

**Sut y bydd eich cais yn cael ei ystyried**

Yn ogystal â defnyddio'r dogfennau a nodir uchod, bydd yr Awdurdod hefyd yn ymgynghori â gwahanol gyrff, awdurdodau a sefydliadau a all ddarparu cyngor arbenigol. Bydd y rhain yn cynnwys:

1. Tîm Trwyddedu Cyngor Sir Benfro
2. Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Benfro (a/neu Asiantaeth Cefnffyrdd lle bo hynny'n berthnasol)
3. Cyfoeth Naturiol Cymru
4. Dŵr Cymru

Mae hefyd yn bwysig sicrhau na fydd eich gwersyll yn achosi aflonyddwch nac yn cael effaith sylweddol ar amwynder pobl eraill (Polisi 30 Cynllun Datblygu Lleol Amwynder 2). Mae'r Awdurdod hefyd yn gofyn am farn y Cyngor Dinas, Tref neu Gymuned yn statudol, ac yn ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan bartïon cyfagos neu yr effeithir arnynt.

Bydd adroddiad yn cael ei ysgrifennu gan swyddog cynllunio yn manylu ar yr holl wybodaeth am eich cynnig, sut mae'n mynd i'r afael â gofynion polisi, ac unrhyw gyngor arbenigol a ddarperir. Er bod yn rhaid i rai ceisiadau gael eu hystyried gan Bwyllgor Rheoli Datblygu'r Awdurdod, gwneir penderfyniadau ynghylch y rhan fwyaf drwy bwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr gan y Pwyllgor. Bydd angen i chi gynllunio ymlaen llaw gan y gall ceisiadau cynllunio gymryd 8 wythnos i gyrraedd penderfyniad. Mae'r Awdurdod wedi paratoi Protocol Gwaith yn egluro bod yr Awdurdod angen ceisio blaenoriaethu sy'n ddibynnol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1)

[11] Gweler y diffiniad ar dudalen 37 o Bolisi Cynllunio Cymru - Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12 (llyw.cymru)

ac i dynnu’n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio tir i wersylla, ar gyfer carafannau a/neu gartrefi symudol am lai na 28 diwrnod.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio ar gael yma: Y Broses o Wneud Cais - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Yn olaf, mae'n bwysig cofio bod bwriad i'ch gwersyll fod yn ddatblygiad cyffyrddiad ysgafn sydd yn ei le a'r lle am hyd at 28 diwrnod gweithredol. Am y rheswm hwn, ni chefnogir yr elfennau canlynol yn gyffredinol:

1. Adeiladau/strwythurau parhaol newydd
2. Creu traciau mynediad
3. Goleuadau allanol
4. Defnyddio cyfleusterau fel ceginau awyr agored/tybiau twym/toiledau/cawodydd unigol
5. Cerddoriaeth drwy seinydd

Pan fydd y cyfnod o 28 diwrnod wedi dod i ben, dylid adfer y safle i'w gyflwr naturiol neu wreiddiol.

**Eich Caniatâd Cynllunio**

Os bydd eich cais i weithredu safle yn llwyddiannus, bydd yn cael ei gymeradwyo gydag amodau. Bwriad yr amodau hyn yw sicrhau bod y safle'n cael ei weithredu yn ôl y disgwyl, a byddant yn cynnwys pethau fel:

1. Y dyddiadau pryd y gall y safle weithredu;
2. Manylion unrhyw strwythurau dros dro;
3. Symud unrhyw strwythurau dros dro o’r safle os nad yw'r safle'n weithredol, neu ar ddiwedd y cyfnod o 28 diwrnod;
4. Gofynion sy'n ymwneud â gwastraff a gwaredu dŵr gwastraff;
5. Sicrhau na wneir unrhyw newidiadau parhaol i'r tir.

Mae hawl i apelio yn erbyn amod yn eich caniatâd cynllunio, neu benderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio. Gweler yma am ragor o wybodaeth: Apeliadau Cynllunio - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**Mwy o wybodaeth**

Dilynwch y dolenni yn y ddogfen hon a fydd yn rhoi gwybodaeth gefndir ychwanegol i chi. Efallai y byddwch hefyd am brofi eich cynnig cyn gwneud cais cynllunio drwy gyflwyno ymholiad cyn-ymgeisio i'r Awdurdod. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma: Cyngor Cyn-ymgeisio - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**Ffioedd**

Oherwydd yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer safleoedd 28 diwrnod sy'n cael eu dileu drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4, nid oes angen unrhyw ffioedd ar gyfer cais cynllunio. Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu cyngor cyn-ymgeisio am ddim.